Gwasanaeth Addysg Gatholig Cymru a Lloegr

Crynhoad o Ddata Cyfrifiad 2013 ar gyfer Addysg Gatholig yng Nghymru

Hyrwyddo a Chefnogi Addysg Gatholig yng Nghymru a Lloegr

Gwasanaeth Addysg Gatholig Cymru a Lloegr

Crynhoad o Ddata Cyfrifiad 2013 ar gyfer Addysg Gatholig yng Nghymru

Hyrwyddo a Chefnogi Addysg Gatholig yng Nghymru a Lloegr

CYNNWYS

Adran	Rhif y dudalen
1. Rhagair	6
2. Cyflwyniad	7
3. Yr ysgolion	
Nifer yr ysgolion	8
Maint Ysgolion Catholig a Gynhelir	9
4. Y Disgyblion	
Nifer y disgyblion mewn Ysgolion Catholig	10
Catholigrwydd	10
Rhywedd	11
Eithrio o addoli ar y cyd	11
Gwisg ysgol	11
Ethnigrwydd	12
Prydau ysgol am ddim	12
Plant sy'n derbyn gofal	13
Anghenion addysgol arbennig	13
Dal gafael ar ddisgyblion ôl-16 oed	14
5. Y Staff	
Timau arwain	15
Catholigrwydd	15
Dysgu Addysg Grefyddol	16
Ethnigrwydd	16
Staff Cymorth Addysg	17
6. Atodiadau	
Atodiad 1: Disgyblion mewn Ysgolion a Gynhelir	
1.1: Nifer y Disgyblion fesul Esgobaeth	18
1.2: Catholigrwydd, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal fesul Esgobaeth	18
1.3: Ethnigrwydd Disgyblion fesul Esgobaeth	18
Atodiad 2: Athrawon mewn Ysgolion a Gynhelir	
2.1: Timau Arwain (Ysgolion Cynradd) fesul Esgobaeth	19
2.2: Timau Arwain (Ysgolion Uwchradd) fesul Esgobaeth	19
2.3: Catholigrwydd a'r Dystysgrif Gatholig mewn Astudiaethau Crefyddol fesul Esgobaeth	19
2.4: Ethnigrwydd Athrawon fesul Esgobaeth	20
Atodiad 3: Map yn dangos Esgobaethau Catholig Cymru	21

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Crynhoad o Ddata Cyfrifiad 2013 ar gyfer Addysg Gatholig yng Nghymru. Mae'r teitl yn bwysig: mae'r flwyddyn hon yn nodi moment arwyddocaol yn hanes Cyfrifiad y CES, oherwydd mae crynoadau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Cymru a Lloegr ar wahân am y tro cyntaf. Mae annibyniaeth gynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn materion addysgol a'r gwahaniaeth rhwng y ddwy system genedlaethol o ganlyniad i hynny wedi arwain at y datblygiad hwn. Rydym yn gobeithio y bydd y ddwy ddogfen yn fwy eglur drwy gyfyngu'r pwnc i un cyd-destun cenedlaethol yn hytrach na dau.

Rwyf yn croesawu tystiolaeth am lewyrch addysg Gatholig yng Nghymru. Mae'n amlwg bod gan ysgolion Catholig le cadarn o fewn y system: gyda'u cymeriad unigryw eu hunain, wedi'u dewis nid yn unig gan Gatholigion, ond gan deuluoedd eraill sy'n gwerthfawrogi'r addysg y mae eu plant yn ei brofi mewn ethos Catholig. Mae amrywiaeth ethnig gyfoethog ysgolion Catholig hefyd yn cael ei ddangos yn glir yn y Crynodeb hwn: dyma ffordd tra ymarferol a chynhwysol y maen nhw'n gwasanaethu anghenion pawb yn eu cymunedau.

Lle bynnag y bo modd, mae'r Crynodeb yn cymharu sefyllfa ysgolion Catholig â'r sefyllfa genedlaethol. Mae'r cyfrifiad ysgolion cenedlaethol yn amhrisiadwy yn hyn o beth, gan roi cyfrif gwrthrychol o gyd-destun cenedlaethol addysg. Mae cymharu'n dangos bod poblogaethau disgyblion a staff mewn ysgolion Catholig yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol mewn sawl ffordd. Mae'n bleser arbennig nodi bod hyn yn wir o ran darparu Staff Cefnogi Addysg, lle mae mentrau cenedlaethol wedi arwain at welliannau cynyddol yn y ddarpariaeth o'r aelodau pwysig hyn o staff mewn ysgolion, gan gynnwys ysgolion Catholig.

Mae trefnu'r Cyfrifiad, casglu'r data cywir, coladu'r data hwnnw a chynhyrchu'r Crynhoad yn dasgau heriol, sy'n cynnwys cannoedd o bobl mewn nifer o wahanol ffyrdd. Rwyf yn falch o fynegi ein diolch corfforaethol i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith mewn ysgolion, yn yr esgobaethau a'r swyddfa ganolog, a hoffwn sôn yn benodol am dri: Robert Rushworth, y rheolwr data CES, a fu'n cydlynu'r gwaith o gasglu data mor fedrus; Rebekah Hayward, a gynlluniodd y Crynhoad yn y ffurf yr ydych yn ei ddarllen yn awr, a Peter Irvine, CBE, cyn Arolygydd Ei Mawrhydi (Lloegr), a ysgrifennodd yr adroddiad.

Paul Barber
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg Catholig
Tachwedd 2013

Cyflwyniad

1. Cyflawnodd Cyfrifiad y CES gyfradd ymateb o fwy na 98%, sef yr uchaf ers dechrau cyhoeddi ystadegau yn 2007. Yng Nghymru, dim ond dwy ysgol a fethodd ddychwelyd eu ffurflenni - un Ysgol Gynradd ac un ysgol annibynnol i bob oedran. Mae hyn yn darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer sylwebaeth, yn amodol ar y cafeatau canlynol:

• Mae nifer yr ysgolion yn gymharol fychan, yn enwedig ar lefel Uwchradd, felly mae'r holl gyffredinoli yn cael ei wneud yn betrusgar;
• Mae gan Esgobaeth Caerdydd tua 60% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac mae angen deall cymariaethau esgobaethol yn y cyd-destun hwnnw;
• O'r ddwy ysgol annibynnol Gatholig, dim ond un sydd wedi dychwelyd ei ffurflenni; mae'r nifer bychan a diffyg gwybodaeth fanwl o un ysgol yn esbonio'r cyfeiriad cymharol fychan at y sector annibynnol;
• Dewi Sant yng Nghaerdydd yw'r unig goleg chweched dosbarth yng Nghymru, ac mae eu data yn cael ei gynnwys gyda data Ysgolion Uwchradd yn y ddogfen hon.

2. Mae'r ddogfen hon yn dilyn yr un patrwm â materion cyfun 'Cymru a Lloegr' y blynyddoedd diwethaf: adrannau ar ysgolion, disgyblion ac athrawon, ac yna atodiadau sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am ddisgyblion ac athrawon ym mhob Esgobaeth. Mae rhywfaint o barhad yn bwysig i ganiatáu cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn ac fel bod modd canfod tueddiadau. Nid yw'r patrwm yn haearnaidd, fodd bynnag: gwneir newidiadau bychan bob blwyddyn ac rydym yn agored i awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, naill ai yn ymwneud â rhannau o'r crynhoad neu ei strwythur yn gyffredinol.

Yr Ysgolion

Nifer yr Ysgolion

3. Mae'r cyfrifiad cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi cofnodi 42 yn llai o ysgolion nag yn Ionawr 2012: cafwyd gostyngiad o 38 yn nifer yr Ysgolion Cynradd, 5 yn llai o Ysgolion Uwchradd ac un ysgol arbennig yn llai, gydag ychydig o wrthgyferbyniad yn y ffaith bod dwy ysgol annibynnol wedi cael eu hagor. Mae tua un rhan o dair o'r Ysgolion Cynradd a chwarter yr Ysgolion Uwchradd yn cael eu cyfrif yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

4. Bu gostyngiad hefyd yn y sector Catholig yn nifer yr Ysgolion Cynradd, gyda'r Cyfrifiad yn dangos bod dwy ysgol yn llai nag yn 2012. O'r ysgolion hyn (y ddwy ym Mynyw), dim ond un oedd wedi cau, gyda'r llall yn gyfuniad o ysgol fabanod ac ysgol iau yn un Ysgol Gynradd i bob oedran. Nid oedd unrhyw newid yn y cyfnod Uwchradd nac yn y sector annibynnol. Dim ond un Ysgol Gynradd Gatholig (yn Esgobaeth Wrecsam) gafodd ei chyfrif yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r tablau isod yn cynnwys un ysgol Uwchradd ar y cyd: Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff yn Wrecsam.

Tabl 1: Nifer yr Ysgolion[1] yn ôl Cyfnod yn Ionawr 2013

Cyfnod	Cynhelir	Annibynnol	Cyfanswm
Cynradd	71	0	71
Uwchradd	15	0	15
Trydyddol	1	0	1
Y cyfan	0	2	2
Cyfanswm	87	2	89

5. Mae nifer yr ysgolion annibynnol yng Nghymru yn rhy fach i roi cyfle i gyffredinoli'n ystyrlon. Am y rheswm hwn, mae bron pob dogfen gyfredol yn ymwneud ag ysgolion a gynhelir oni bai bod y sector annibynnol yn cael ei gynnwys yn benodol.

6. Roedd Ysgolion Cynradd Catholig a gynhelir yn cyfrif am 5% o holl Ysgolion Cynradd Cymru ac roedd Ysgolion Uwchradd Catholig yn cyfrif am 7% o'r holl Ysgolion Uwchradd.

7. Mae tabl 2 yn dangos dosraniad yr ysgolion yn ôl esgobaeth.

Tabl 2: Nifer yr ysgolion yn ôl eu hesgobaeth

Esgobaeth	Cynradd	Uwchradd	Trydyddol	Annibynnol	Cyfanswm
Caerdydd	41	9	1	1	52
Mynyw	16	3	0	0	19
Wrecsam	14	3	0	1	18
Cyfanswm	71	15	1	2	89

[1]Mae'r pum ysgol yn esgobaeth Caerdydd ond sydd wedi'u lleoli yn Swydd Henffordd wedi cael eu heithrio o'r tablau a ganlyn.

Maint Ysgolion Catholig a Gynhelir

8. Ar gyfartaledd, roedd 192 o ddisgyblion fesul Ysgol Gynradd yng Nghymru. Yn achos Ysgolion Catholig roedd y ffigwr hwnnw'n 206 o ddisgyblion. Y cyfartaledd ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn genedlaethol oedd 886, ac yn achos Ysgolion Uwchradd Catholig y cyfartaledd oedd 836, ond mae'r ysgolion yn amrywio'n fawr o ran maint, o tua 500 i ymhell dros 1400. Roedd wyth o'r Ysgolion Uwchradd yn cymryd disgyblion o 11 i 16 oed a saith o'r ysgolion yn cymryd disgyblion o 11 oed i 18 oed.

9. Roedd y chweched dosbarth hefyd yn dangos amrywiaeth fawr o ran maint: roedd y cyfartaledd tua 192, ond roedd tri ohonyn nhw'n llawer mwy na hynny, a thri yn llawer llai, fel mai gwerth cyfyngedig sydd i'r cyfartaledd. Roedd y chweched dosbarth lleiaf yn cynnwys 78 o ddisgyblion, a'r mwyaf yn cynnwys 313 o ddisgyblion.

10. Mae'r unig goleg chweched dosbarth yng Nghymru wedi parhau i ffynnu, gan ychwanegu 6% at ei chofrestr o'i gymharu â 2012.

Y Disgyblion

Nifer y disgyblion mewn Ysgolion Catholig

11. Dangosodd y cyfrifiad cenedlaethol fod cyfanswm poblogaeth ysgolion wedi gostwng y swm bychan o 0.2% o'i gymharu â 2012. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd yn yr ystod oedran Uwchradd wedi parhau i orbwyso cynnydd yn y sector Cynradd a'r niferoedd dan 5 oed.

12. Mae Ysgolion Catholig wedi dilyn y duedd genedlaethol yn agos: cafwyd cynnydd bychan yn y niferoedd Cynradd, ond gostyngiad ychydig yn fwy yn y niferoedd Uwchradd.

13. Fe wnaeth Ysgolion Cynradd Catholig addysgu tua 6% o gyfanswm poblogaeth y disgyblion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd Catholig tua 7% o ddisgyblion Uwchradd.

Tabl 3: Nifer y disgyblion mewn Ysgolion Catholig yn ôl Cyfnod yn Ionawr 2013[2]

Cyfnod	Cynhelir	Annibynnol[3]	Cyfanswm
Cynradd	14620		
Uwchradd	12543		
Colegau chweched dosbarth	1441		
Cyfanswm	28604	680	29284

Catholigrwydd

14. Roedd cyfran y disgyblion Catholig yn y sector Catholig yn gyffredinol yn 57.9%. Dangosodd y ffigwr cyffredinol ostyngiad ers 2012, pan oedd y gyfran yn 59.6%, a chadarnhaodd ostyngiad parhaus ers 2007, pan oedd y ffigur yn 66.6%. Roedd y gostyngiad wedi ei daenu ar draws pob cyfnod, ond roedd yn llawer mwy sylweddol yn y cyfnod Uwchradd, fel y mae cymhariaeth â 2012 yn ei ddangos: Ysgolion Cynradd 63.9%; Ysgolion Uwchradd 56.3%. Mae Tabl 4A yn dangos cyfrannau'r disgyblion Catholig ym mhob cyfnod addysg.

Tabl 4A: Cyfran y disgyblion Catholig mewn ysgolion a gynhelir yn ôl cyfnod

Cyfnod	Nifer y disgyblion[4]	% disgyblion Catholig
Ysgolion cynradd	14401	62.8
Ysgolion uwchradd	13984	53.7
Cymru	28385	57.9

15. Mae dadansoddiad yn ôl grŵp blwyddyn yn awgrymu bod y gostyngiad yn debygol o barhau, a chyflymu hyd yn oed yn y cyfnod Uwchradd, dros y pum mlynedd nesaf. Nid yw'r rhesymau dros y gostyngiad sydyn ym mlwyddyn 7 yn amlwg, yn enwedig gan fod y niferoedd cyffredinol yn y grwpiau blwyddyn yn y cyfnod Uwchradd wedi aros yn weddol wastad.

[2]Mae'r ffigyrau hyn yn gynhwysfawr, gan fod canlyniadau'r Cyfrifiad wedi cael eu hategu gan Edubase. Maen nhw'n cynnwys disgyblion yn yr ysgol gyfun: mae hyn yn egluro mân wahaniaethau rhwng ffigyrau'r cyfrifiad cenedlaethol ar gyfer ysgolion enwadol.
[3]Dim ond y cyfanswm cyffredinol a nodir yma: mae'r ddwy ysgol annibynnol yn ysgolion pob oedran.
[4]Mae'r ffigyrau hyn, a'r rhai yn y tablau agosaf, yn seiliedig ar wybodaeth gan ysgolion a ymatebodd i'r Cyfrifiad. Mae hyn yn egluro'r gwahaniaeth bychan yn y niferoedd Cynradd yn nhabl 3.

Tabl 4B: Cyfran y disgyblion Catholig yn ôl grŵp blwyddyn

Grŵp blwyddyn	D	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11
% Catholig	61	62	62	62	64	64	65	47	53	52	57	58

16. Roedd y tair Esgobaeth yn amrywio'n sylweddol iawn, yn enwedig yn y cyfnod Uwchradd: Caerdydd gyda 64% Cynradd a 56% Uwchradd, Mynyw gyda 59% Cynradd a 47% Uwchradd, Wrecsam gyda 62% Cynradd a 44% Uwchradd.

17. Roedd cyfrannau disgyblion Catholig / y rhai nad ydyn nhw'n Gatholigion yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol, yn ogystal ag ar draws Esgobaethau a chyfnodau addysg. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr amrywiad hwn.

Tabl 4C: Dosbarthiad disgyblion nad ydyn nhw'n Gatholigion mewn Ysgolion Catholig a Gynhelir.

% y disgyblion nad ydyn nhw'n Gatholig	<1	1-10	11-20	21-30	31-40	41-50	51-60	61-70	71-80	>80
Nifer yr ysgolion	0	4	9	9	19	15	16	11	2	1
% yr ysgolion	0	4.7	10.5	10.5	22.1	17.4	18.6	12.8	2.3	1.2

18. Roedd cyfran yr ysgolion sydd â llai na 10% o ddisgyblion nad ydyn nhw'n Gatholigion yn is na 5%, sy'n llawer is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Lloegr, sef 23%. Roedd y gyfran oedd â mwy na 50% yn 35%, sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Lloegr, sef 20%. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod proffil poblogaethau'r ysgolion yn y cyswllt hwn yn sylweddol wahanol yng Nghymru.

Rhywedd

19. Yn y cyfnod Cynradd mae'r cydbwysedd rhwng bechgyn a merched yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol o ychydig yn fwy o fechgyn na merched: 50.7% o fechgyn o'i gymharu â 49.3% o ferched. Yn genedlaethol, parhaodd hyn drwy'r ystod oedran 11 – 16 oed, ond mewn Ysgolion Uwchradd Catholig y gwrthwyneb oedd yn wir, gyda 49.2% o fechgyn o'i gymharu â 50.8% o ferched. Nid yw'r rhesymau am hyn yn amlwg, ond fe allen nhw ddeillio o fodolaeth rhagor o ysgolion un rhyw ar gyfer merched nag ar gyfer bechgyn yn y gorffennol. Yn y cyfnod ôl-16, merched oedd y ganran fwyaf yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, a oedd yn dangos cydbwysedd o 46.5% o fechgyn o'i gymharu â 53.5% o ferched, yn dilyn y patrwm cenedlaethol ar gyfer addysg ôl-orfodol.

Eithrio o addoli ar y cyd

20. Ni chafodd yr un disgybl ei eithrio o addoli ar y cyd yng Nghymru yn 2013.

Gwisg ysgol

21. Roedd bron pob ysgol Gatholig a gynhelir - 99% - yn mynnu bod disgyblion yn gwisgo gwisg ysgol a gymeradwywyd. Gwelwyd cynnydd bychan mewn ysgolion a gynhelir (o 75% i 80%) yng nghyfran yr ysgolion a oedd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer anghenion crefyddau eraill yn eu polisi gwisg a gyhoeddwyd. Nid yw'r nifer bychan o ysgolion annibynnol yn ein galluogi i gyffredinoli ar sail y ffurflenni a ddychwelwyd.

Ethnigrwydd

Tabl 5: Ethnigrwydd

	Nifer y disgyblion	% Gwyn Prydeinig	% Gwyn Gwyddelig	% Gwyn Dwyrain Ewrop	% Gwyn arall	% Teithwyr o dreftadaeth Wyddelig / Sipsiwn / Roma	% Cymysg/ deuol	% Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	% Du / Du Prydeinig	% Tsieineaidd	% Arall	% anhysbys
Ysgolion Catholig a gynhelir	28385	77.7	0.2	4.3	2.2	0.6	4.1	4.3	2.1	0.3	3.3	0.8
Catholig Cynradd	14401	73.6	0.3	6.0	2.3	1.0	4.2	5.1	2.3	0.3	3.8	1.1
Cynradd i gyd		90.0			2.1*	0.3	2.5	2.4	0.8	0.2	1.1	0.7
Catholig Uwchradd	13984	81.9	0	3.0	2.0	0.2	4.1	3.6	2.3	0.3	2.8	0.6
Uwchradd i gyd		91.8			1.6*	0.1	2.0	1.9	0.7	0.2	0.9	0.7

*Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys gwyn Dwyrain Ewrop, gan nad yw'r cyfrifiad cenedlaethol yn dynodi'r grŵp hwn ar wahân.

22. Adroddodd y cyfrifiad cenedlaethol mai cyfran y disgyblion o dras lleiafrifoedd ethnig (nid yn y grŵp gwyn Prydeinig) mewn Ysgolion Cynradd oedd 9.3%, cynnydd bychan o'r 8.9% yn 2012. Mewn Ysgolion Uwchradd roedd y ffigwr yn 7.5%, sy'n gynnydd o'r 7% yn 2012.

23. Roedd Ysgolion Catholig yn llawer mwy amrywiol o ran ethnigrwydd, gyda chyfrannau uwch yn y rhan fwyaf o gategorïau ethnig. Yn achos Ysgolion Cynradd Catholig roedd cyfran y disgyblion oedd yn dod o leiafrifoedd ethnig yn 25.4%, sy'n gynnydd o'r 24.1% yn 2012. Yn achos Ysgolion Uwchradd Catholig roedd y gyfran yn 17.5%, sy'n gynnydd o'r 16.4% yn 2012. Nid yw'r cyfrifiad cenedlaethol yn cofnodi ethnigrwydd gwyn Dwyrain Ewrop ar wahân, felly nid yw cymariaethau cenedlaethol yn bosibl, ond mae'r cynnydd yn nifer y disgyblion o'r grŵp hwn mewn Ysgolion Catholig yn drawiadol: 6.0% yn y sector Cynradd (4.8% yn 2012) a 3.0% yn y sector Uwchradd (2.7% yn 2012). Hwn yw'r grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf erbyn hyn mewn Ysgolion Cynradd Catholig yng Nghymru.

24. Mae Tabl 5 yn dangos yn glir bod Ysgolion Cynradd yn gyffredinol yn fwy amrywiol nag Ysgolion Uwchradd, gyda chyfrannau uwch yn yr holl grwpiau lleiafrifol, bron â bod. Ysgolion Cynradd Catholig oedd yn addysgu 30% o holl blant Teithwyr / Sipsiwn / Roma yng Nghymru.

25. Mae'r ffigurau esgobaethol yn dangos cyfrannau eithaf cyfartal yn y grŵp gwyn Prydeinig ac mewn nifer o rai eraill. Roedd Wrecsam yn anarferol gan fod ganddi lawer mwy yn y grŵp gwyn Dwyrain Ewrop ond llai yn y grwpiau Asiaidd / Asiaidd Prydeinig a Du / Du Prydeinig.

Prydau ysgol am ddim

26. Dangosodd y cyfrifiad cenedlaethol fod nifer y disgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys am brydau am ddim wedi cynyddu ychydig yn y cyfnodau Cynradd ac Uwchradd. Roedd hyn yn parhau â'r duedd ar i fyny ers 2008 (er bod gostyngiad bach yn 2012). Roedd Ysgolion Cynradd Catholig yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol, ond ychydig yn is na'r ffigurau cyfartalog. Roedd Ysgolion Uwchradd Catholig yn agosach at y cyfartaledd nag Ysgolion Cynradd, ond yn groes i'r duedd genedlaethol, gostyngodd cyfran y disgyblion sy'n gymwys rhyw ychydig, o 16.1% yn 2012 i 14.9% yn 2013. Mae Tabl 6 yn crynhoi'r wybodaeth hon.

Tabl 6: Cyfran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac sy'n hawlio hynny, fesul cyfnod

Cyfnod	Nifer y disgyblion	Nifer sy'n gymwys ar gyfer prydau am ddim ac sy'n eu cymryd	% sy'n gymwys ar gyfer prydau am ddim ac sy'n eu cymryd (cyfartaledd cenedlaethol mewn cromfachau)
Cynradd	14401	2543	17.7 (18.9)
Uwchradd	13984	2084	14.9 (16.2)

27. Mae craffu ar ffigyrau esgobaethol yn dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhyngddyn nhw.

Plant sy'n derbyn gofal

28. Roedd cyfran y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru tua 0.9% o boblogaeth yr holl blant, neu tua 5730 o blant neu bobl ifanc hyd at 18 oed. Y nifer mewn Ysgolion Catholig oedd 180, sef 0.63% o boblogaeth ysgolion Catholig (bron yn union yr un fath â 2012), ond mae angen nodi na ellir cymharu'r canrannau hyn gan fod y poblogaethau sy'n sail iddyn nhw yn wahanol. Nid oedd llawer o amrywiaeth rhwng yr Esgobaethau.

Anghenion addysgol arbennig

29. O'i gymharu â 2012, dangosodd y cyfrifiad cenedlaethol ychydig yn llai o ddisgyblion yn y cyfnodau Cynradd ac Uwchradd yr oedd datganiadau AAA wedi cael eu cynhyrchu ar eu cyfer: 1.4% mewn Ysgolion Cynradd o'i gymharu â 1.5% yn 2012, a 2.5% mewn Ysgolion Uwchradd o'i gymharu â 2.6% yn 2012. Roedd cyfrannau'r disgyblion heb ddatganiadau bron yn union yr un fath mewn Ysgolion Cynradd (20.1%) ond roedd wedi codi mewn Ysgolion Uwchradd o 18.6% i 19.2%.

30. Roedd y ffigurau ar gyfer Ysgolion Catholig yn is na'r ffigurau cenedlaethol yn y ddau gategori, er bod y gwahaniaeth i ddisgyblion heb ddatganiadau mewn Ysgolion Cynradd yn rhy fychan i fod yn arwyddocaol.

Tabl 7A: Cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, fesul cyfnod

	Nifer y disgyblion	% AAA gyda datganiad (y cyfartaledd cenedlaethol mewn cromfachau)	% AAA heb ddatganiad (y cyfartaledd cenedlaethol mewn cromfachau)
Cynradd	14401	0.8 (1.4)	19.8 (20.1)
Uwchradd	13984	2.0 (2.5)	16.2 (19.2)

31. Roedd cyfrannau'r disgyblion â datganiadau yn debyg yn y gwahanol Esgobaethau, ond mae'r ffigurau ar gyfer y rhai heb ddatganiadau yn dangos mwy o amrywiaeth na'r rhan fwyaf o agweddau eraill. Mae Tabl 7B yn dangos hyn.

Tabl 7B: Cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, fesul Esgobaeth

	% AAA gyda datganiad	% AAA heb ddatganiad
Caerdydd	1.3	19.4
Mynyw	1.6	16.9
Wrecsam	1.5	14.2

Dal gafael ar ddisgyblion ôl-16 oed

32. Mae'r adran hon o'r Crynodeb yn amodol ar gafeat oherwydd yr amrywiaeth o ddarpariaeth ôl-16 ar draws y wlad, ac yn enwedig y diffyg darpariaeth Gatholig ôl-16 mewn nifer o ardaloedd. Mae'n aml yn anodd, er nad yn amhosibl, i'r ysgolion 11-16 gasglu data am gyrchfannau disgyblion. Dangosir hyn yn y dadansoddiad fesul esgobaeth yn nhabl 8.

Tabl 8: Dal gafael ar ddisgyblion ôl-16 oed, fesul Esgobaeth

	Disgyblion ym mlwyddyn 11 yn 2012	% y disgyblion a ddychwelodd i'r ysgol ym mlwyddyn 12	% y disgyblion y gwyddys eu bod wedi cofrestru mewn ysgol Gatholig arall ym mlwyddyn 12	% y disgyblion na wyddys beth oedd eu cyrchfan ar ôl blwyddyn 11
Caerdydd	1337	39	26	35
Mynyw	431	50	0	50
Wrecsam	367	14	5	81
Cyfanswm	2135	37	17	46

33. Mae'r tabl yn dangos bod angen trin ffigurau cyfartaledd cenedlaethol yn ofalus iawn pan fydd y sampl yn fach. Mae bodolaeth y coleg chweched dosbarth yn hwyluso casglu data ar gyfer ysgolion yn ninas Caerdydd. Ar y pegwn arall, dim ond un o'r tair Ysgol Uwchradd yn Esgobaeth Wrecsam sy'n ysgol 11-18, ac nid yw'r ysgolion 11-16 dan unrhyw rwymedigaeth i ymgymryd â'r dasg lafurus o gasglu data cyrchfan am y rhai sy'n gadael yr ysgol.

Y STAFF

Timau arwain

34. Ar adeg y Cyfrifiad roedd chwe swydd prifathrawiaeth Cynradd yn wag o'i gymharu â phedair yn 2012, ac ar gyfartaledd roedd yr amser ers i'r deiliad diwethaf adael yn un tymor. Yr un nifer o swyddi oedd yn wag ar lefel dirprwy bennaeth, unwaith eto o'i gymharu â phedair yn 2012, a hyd cyfartalog y bylchau oedd un tymor yn yr achos hwn hefyd. Mae'r niferoedd dan sylw yn rhy fach i ganiatáu cyffredinoli.

35. Nid oedd swyddi prifathrawiaeth yn wag ymhlith yr Ysgolion Uwchradd, ond roedd dwy swydd dirprwy benaethiaid yn wag. Mae'r ddwy swydd hyn wedi bod yn wag am un tymor.

Tabl 9: Swyddi arwain gwag, CPCP a rhywedd

	Nifer yr ysgolion a ymatebodd	% swyddi gwag prifathrawiaeth	% swyddi gwag dirprwy neu gynorthwyol	% Catholig gyda CPCP	% ddim yn Gatholig ond gyda CPCP	% Catholig yn dilyn cwrs CPCP	% ddim yn Gatholig yn dilyn cwrs CPCP	Rhywedd penaethiaid %Benyw /%Gwryw
Cynradd	70	8.6	8.6	6.0	0.2	1.0	0.3	58/42
Uwchradd	15	0	13.3	3.0	0.6	0.1	0	29/71

36. Nid yw'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn orfodol i benaethiaid yng Nghymru (nac ar gyfer penaethiaid yn Lloegr erbyn hyn). Serch hynny, roedd gan 42 o athrawon y cymhwyster ac roedd naw yn paratoi ar ei gyfer yn y sector Cynradd, a 29 yn meddu ar y cymhwyster ac un yn gweithio tuag ato yn y sector Uwchradd. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i rai'r blynyddoedd blaenorol. Mae dosbarthiad y 'deiliaid' a'r 'derbynwyr' yn weddol wastad ar draws yr Esgobaethau.

37. Mewn Ysgolion Cynradd y gyfran o fenywod a dynion oedd yn brifathrawon oedd 58:42, yr un fath ag yn 2012, ac nid yw wedi newid rhyw lawer ers i'r Crynoadau hyn gael eu cyhoeddi gyntaf. Roedd merched yn llawer mwy niferus ar lefel dirprwy bennaeth, lle mae'r gymhareb yn 85:15. Yn y sector Uwchradd mae'r niferoedd bychan yn atal cyffredinoli: o'r pedair ar ddeg o ysgolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd deg o benaethiaid gwryw a phedair pennaeth benyw. Roedd y gynrychiolaeth yn fwy cyfartal ar lefel dirprwy, ac roedd merched yn fwy niferus na'r dynion ar lefel pennaeth cynorthwyol. Rhaid aros i weld a fydd y sefyllfa o fenywod mewn swyddi ail haen yn arwain at benodi rhagor o benaethiaid benyw.

Catholigrwydd

38. Ar draws pob cyfnod, y gyfran gyffredinol o athrawon Catholig oedd 55%, sy'n is na'r lefel o 57% yn 2012. Roedd Caerdydd a Mynyw yn agos at y ffigwr hwn, ond roedd y 51% yn Wrecsam dipyn yn is. Mae'r dadansoddiad yn Nhabl 10 yn dangos amrywiad sylweddol rhwng y cyfnodau (hyd yn oed yn fwy nag yn achos Lloegr). Mae cyfran yr athrawon sy'n dal y Dystysgrif Gatholig mewn Astudiaethau Crefyddol (CCRS) wedi parhau i ostwng yn araf yn y tri chyfnod: yn 2012 roedd y cyfrannau yn 36% mewn Ysgolion Cynradd a 7% mewn ysgolion Uwchradd. Roedd gan naw o athrawon radd meistr mewn arwain ysgol Gatholig ac roedd 13 arall yn astudio ar gyfer gradd o'r fath: roedd pob un ac eithrio un o'r 22 o athrawon hyn yn gweithio yn Esgobaeth Caerdydd.

Tabl 10: Catholigrwydd a'r Dystysgrif Gatholig mewn Astudiaethau Crefyddol

	Nifer yr athrawon	% athrawon Catholig	Nifer y staff â CCRS	% â CCRS
Cynradd	685	76	236	34.5
Uwchradd	885	38	49	5.5

Dysgu Addysg Grefyddol

39. Mae'r dadansoddiad cyfnod yn Nhabl 11 yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o addysgu Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Cynradd yn cael ei wneud gan yr athro dosbarth. Roedd cyfran yr arbenigwyr Addysg Grefyddol wedi gostwng ers 2012, ond gallai hyn adlewyrchu cam-adrodd yn y cyfrifiad diwethaf. Mae'r tabl yn amlygu'r ffaith mai dim ond llond llaw o'r arbenigwyr hyn oedd yn addysgu Addysg Grefyddol am y rhan fwyaf o'u hamser. Y mae hefyd yn wir nad oedd gan y rhan fwyaf o Ysgolion Cynradd arbenigwr yn y maes. Roedd nifer yr ysgolion lle mae rhywfaint o Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu gan Gynorthwyydd Addysgu wedi gostwng i lefel debyg i 2011. Mae'r cyfanswm yn fach, ond mae hon yn agwedd y mae gofyn cadw golwg arni.

40. Nid yw'r ffigurau Uwchradd wedi amrywio'n fawr yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mewn gwirionedd maen nhw'n agos iawn i'r rhai ar gyfer 2010. Maen nhw'n awgrymu bod y rhan fwyaf o Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu gan arbenigwyr yr oedd Addysg Grefyddol yn rhan fawr o'u hymrwymiad addysgu, tra bod un neu ddau o athrawon eraill ym mhob ysgol yn addysgu ambell wers Addysg Grefyddol. Byddai archwiliad pellach o'r amser a neilltuir i Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm yn ychwanegiad defnyddiol i'r data presennol, ac yn helpu asesiadau gwybodus yn y maes pwysig hwn.

Tabl 11: Athrawon Addysg Grefyddol fesul cyfnod

	Nifer yr athrawon	Nifer yr athrawon Addysg Grefyddol arbenigol	% yr athrawon Addysg Grefyddol arbenigol	Nifer y staff sy'n addysgu Addysg Grefyddol	% staff sy'n addysgu Addysg Grefyddol	Nifer y staff sy'n addysgu Addysg Grefyddol am >50%	% staff sy'n addysgu Addysg Grefyddol am >50%	Ysgolion lle'r oedd o leiaf un dosbarth yn cael ei arwain gan Gynorthwyydd Addysgu
Cynradd	685	23	3.4	565	82.5	8	1.2	8
Uwchradd	885	61	6.9	88	9.9	59	6.6	0

Ethnigrwydd

41. Roedd y staff addysgu yn llawer llai cymysg o safbwynt ethnigrwydd na phoblogaeth y disgyblion. Mewn Ysgolion Cynradd roedd 2.8% o athrawon o grwpiau ar wahân i gwyn Prydeinig, ac roedd mwy na hanner y rhain yn cael eu dosbarthu fel gwyn Gwyddelig. Yn y cyfnod Uwchradd roedd 4.9% o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac unwaith eto roedd bron i hanner y rhain o gefndir gwyn Gwyddelig. Nid yw'r ffigurau hyn yn dangos llawer o amrywiaeth o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, fel y gellid disgwyl. Nid oedd yr Esgobaethau yn wahanol iawn o ran proffil ethnig eu staff: mae'r gwahaniaeth amlwg yn achos Wrecsam (gweler Atodiad 2.4) bron yn gyfan gwbl oherwydd ffigwr 'ddim yn hysbys' uchel, a achoswyd

gan ffurflenni diffygiol o ddwy Ysgol Uwchradd. Nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau â rhannau eraill o'r system ysgol, oherwydd nad yw data ethnig ar gyfer athrawon ar gael.

Tabl 12: Ethnigrwydd Athrawon yn gyffredinol a fesul cyfnod

	Nifer yr athrawon	% Gwyn Prydeinig	% Gwyn Gwyddelig	% Gwyn Dwyrain Ewropeaidd	% Gwyn arall	% Teithwyr o dreftadaeth Gwyddelig/ Sipsiwn/Roma	% Cymysg/ deuol	% Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	% Du/ Du Prydeinig	% Tsieineaidd	% Arall	% anhysbys
Holl Ysgolion Catholig	1570	91.7	1.9	0.1	0.9	0	0.3	0.5	0.1	0	0.1	4.5
Cynradd	685	95.9	1.6	0	0.3	0	0.3	0.2	0.2	0	0.2	1.6
Uwchradd	885	88.4	2.2	0.2	1.4	0	0.2	0.8	0	0	0.1	6.8

42. Yn gyffredinol, ychydig iawn o gynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig oedd ymysg timau arweinyddiaeth ar wahân i'r categori gwyn Gwyddelig. Yn yr Ysgolion Cynradd roedd pump o athrawon mewn grwpiau arweinyddiaeth yn nodi eu bod o gefndir gwyn Gwyddelig, yn yr Ysgolion Uwchradd roedd un wedi nodi cefndir gwyn arall ac roedd un yn y grŵp gwyn dwyrain Ewropeaidd.

Staff Cymorth Addysg

43. Dangosodd y cyfrifiad cenedlaethol gynnydd o bron i 6% yn nifer y staff cymorth addysg yn ystod y flwyddyn, a oedd yn parhau â'r duedd ar i fyny yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a gweithredu'r cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon yn ffactorau pwysig wrth sicrhau'r gwelliant hwn. Y canlyniad yw cymhareb o staff cymorth addysg i athrawon o tua 0.95 yn gyffredinol, gan dorri i lawr yn ôl cyfnod i 1.2 yn achos Ysgolion Cynradd a 0.6 yn achos Ysgolion Uwchradd.

44. Roedd Ysgolion Catholig yn agos at y cyfartaleddau cenedlaethol, fel y dangosir yn nhabl 13. Roedd cyfrannau'r staff cymorth addysg Catholig yn agos iawn at y ffigurau ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Tabl 13: Cyfran a Chatholigrwydd Staff Cymorth Addysg

	Nifer yr athrawon	Nifer y staff cymorth addysg	Cymhareb y staff cymorth addysg ag athrawon	% staff cymorth addysg Catholig
Cynradd	685	759	1.1	52.6
Uwchradd	885	393	0.5	30.5
Cyfanswm y ddau	1570	1152	0.7	45.1

ATODIADAU

1.1 Nifer y Disgyblion fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer y disgyblion mewn Ysgolion Cynradd a ymatebodd	Nifer y disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd a ymatebodd	Nifer y disgyblion yn y coleg	Nifer y disgyblion mewn ysgolion a'r coleg a ymatebodd	Nifer y disgyblion o'r Cyfrifiad ac Edubase
Caerdydd	8536	7692	1441	17669	17888
Mynyw	3083	2713		5796	5796
Wrecsam	2782	2138		4920	4920
Cyfanswm	**14401**	**12543**	**1441**	**28385**	**28604**

1.2 Catholigrwydd, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a phlant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer y disgyblion mewn ysgolion a ymatebodd	% Disgyblion Cynradd Catholig	% Disgyblion Uwchradd Catholig	% yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim	% AAA â datganiad	% AAA heb ddatganiad	% Plant sy'n derbyn gofal
Caerdydd	16228	64	59	16.6	1.3	19.4	0.62
Mynyw	5796	59	47	15.7	1.6	16.9	0.67
Wrecsam	4920	62	44	15.9	1.5	14.2	0.65
Cymru	**26944**	**63**	**54**	**16.3**	**1.4**	**18.0**	**0.63**

1.3 Ethnigrwydd Disgyblion fesul Esgobaeth

	Nifer y disgyblion mewn ysgolion a ymatebodd	% Gwyn Prydeinig	% Gwyn Gwyddelig	% Gwyn Dwyrain Ewrop	% Gwyn Arall	% Teithwyr o dreftadaeth Gwyddelig/ Sipsiwn/ Roma	% Cymysg/ Deuol	% Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	% Du / Du Prydeinig	% Tsieineaidd	% grŵp ethnig arall	% anhysbys
Caerdydd	17669	77.0	0.1	3.5	2.2	0.4	4.8	4.6	2.9	0.3	3.3	1.0
Mynyw	5796	78.9	0.2	3.6	2.2	0.8	3.3	5.6	1.3	0.1	3.5	0.5
Wrecsam	4920	78.8	0.4	8.1	2.1	1.0	2.8	1.9	0.5	0.3	3.4	0.8
Cyfanswm	**28385**	**77.7**	**0.2**	**4.3**	**2.2**	**0.6**	**4.1**	**4.3**	**2.1**	**0.3**	**3.3**	**0.8**

2.1: Timau Arwain (Ysgolion Cynradd) fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer yr ysgolion a ymatebodd	Nifer y swyddi gwag penaethiaid	% y swyddi gwag penaethiaid	Nifer y swyddi gwag dirprwy benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol	% y swyddi gwag dirprwy benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol	Nifer y staff sydd â CPCP	Nifer y staff sy'n ymgymryd â CPCP
Caerdydd	40	1	2.5	2	5.0	27	5
Mynyw	16	2	12.5	3	18.8	8	3
Wrecsam	14	3	21.4	1	7.1	7	1
Cyfanswm	**70**	**6**	**8.6**	**6**	**8.6**	**42**	**9**

2.2: Timau Arwain (Ysgolion Uwchradd) fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer yr ysgolion a ymatebodd	Nifer y swyddi gwag penaethiaid	% y swyddi gwag penaethiaid	Nifer y swyddi gwag dirprwy benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol	% y swyddi gwag dirprwy benaethiaid / penaethiaid cynorthwyol	Nifer y staff sydd â CPCP	Nifer y staff sy'n ymgymryd â CPCP
Caerdydd	9	0	0	1	11.1	16	1
Mynyw	3	0	0	0	0	9	0
Wrecsam	3	0	0	1	33.3	4	0
Cyfanswm	**15**	**0**	**0**	**2**	**13.3**	**29**	**1**

2.3: Catholigrwydd a'r Dystysgrif Gatholig mewn Astudiaethau Crefyddol fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer yr athrawon	Nifer y staff addysgu Catholig	% athrawon Catholig	% gyda CCRS
Caerdydd	988	547	55.4	15.6
Mynyw	308	168	54.6	25.0
Wrecsam	274	140	51.1	19.7
Cymru	**1570**	**855**	**54.5**	18.2

2.4 Ethnigrwydd Athrawon fesul Esgobaeth

Esgobaeth	Nifer y disgyblion mewn ysgolion a ymatebodd	% Gwyn Prydeinig	% Gwyn Gwyddelig	% Gwyn Dwyrain Ewrop	% Gwyn Arall	% Teithwyr o dreftadaeth Gwyddelig/ Sipsiwn/ Roma	% Cymysg/ Deuol	% Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	% Du / Du Prydeinig	% Tsieineaidd	% grŵp ethnig arall	% anhysbys
Caerdydd	988	92.8	2.1	0.2	1.1	0	0.3	0.6	0.1	0	0.2	2.6
Mynyw	308	94.8	0.7	0	0.7	0	0.3	0.7	0	0	0	2.9
Wrecsam	274	83.9	2.6	0	0.4	0	0	0	0	0	0	13.1
Cyfanswm	1570	91.7	1.9	0.1	0.9	0	0.3	0.5	0.1	0	0.1	4.5

Atodiad 3: Map yn dangos Esgobaethau Catholig Cymru



Nodiadau

Catholic Education Service
39 Eccleston Square, London, SW1V 1BX
t: 020 7901 1900
e: general@catholiceducation.org.uk
www.catholiceducation.org.uk

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013